
# Mapiau Cyfyngiadau Sectorau Cynllunio Morol


## Canllawiau Dechrau Cyflym

Bydd y wefan yn agor ar dudalen gatalog y map. Mae’r dudalen gatalog yn dangos gwybodaeth am y map a rhagolwg o gynnwys y map.




*Ffigur 1: Sgrinlun o dudalen gatalog [Cyfyngiadau Ynni Gwynt Arnofiol Alltraeth](). Tynnwyd 28/08/2025.*

Cliciwch ar “Dangos yn y syllwr mapiau” i weld y map llawn.





*Ffigur 2: Sgrinlun o [Olwg Map Cyfyngiadau Ynni Gwynt Arnofiol Alltraeth](). Tynnwyd 28/08/2025.*

Bydd clicio ar fotwm "Newid i'r sgrin lawn" ar y dde-waelod yn ehangu'r map i lenwi'r sgrin.




*Ffigur 3: Sgrinlun o fotwm "Newid i'r sgrin lawn". Tynnwyd o [Olwg Map Cyfyngiadau Ynni Gwynt Arnofiol Alltraeth] ar 28/08/2025.*

Mae'r botwm "Toglo pa haenau i'w gweld", wedi'i leoli i'r chwith o bob haen yn y tabl cynnwys, yn rheoli os ydy haen yn weladwy ar y map. Ar gyfer grwpiau haenau, gellir defnyddio'r botwm "Toglo pa haenau i'w gweld" i reoli gwelededd pob haen yn y grŵp.





*Ffigur 4: Sgrinlun o fotwm "Toglo pa haenau i'w gweld". Tynnwyd o [Olwg Map Cyfyngiadau Ynni Gwynt Arnofiol Alltraeth] ar 28/08/2025.*

Bydd eicon "ffolder", wedi'i leoli i'r dde o grŵp haenau yn y tabl cynnwys, yn agor neu gau'r grŵp hwnnw.




*Ffigur 5: Sgrinlun o fotwm "Agor grŵp". Tynnwyd o [Olwg Map Cyfyngiadau Ynni Gwynt Arnofiol Alltraeth] ar 29/08/2025.*

Er mwyn gweld gwybodaeth bellach am haen, cliciwch ar yr haen yn y tabl cynnwys fel bod hi’n cael ei lliwio’n las. Wedyn cliciwch ar y botwm “Ewch i dudalen y catalog haenau” ar dop y tabl cynnwys.




*Ffigur 2: Sgrinlun o dabl cynnwys [Golwg Map Cyfyngiadau Ynni Gwynt Arnofiol Alltraeth](), yn dangos haen “Cytundebau Safleoedd Agregau (byffer 3km)” wedi’i lliwio’n las, a botwm “Ewch i dudalen y catalog haenau”. Tynnwyd 29/08/2025.*

Bydd hyn yn agor tudalen gatalog MapDataCymru ar gyfer yr haen honno, sy’n cynnwys disgrifiad o’r set ddata, dolen i’r ffynhonnell ddata wreiddiol, gwybodaeth am yr hawlfraint a dyddiad addasu diwethaf y data.




*Ffigur 3: Sgrinlun o dudalen gatalog [Cytundebau Safleoedd Agregau (byffer 3km)](). Tynnwyd 29/08/2025.*